Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Llywodraeth Cymru

# Cyllideb Derfynol 2025-26

Chwefror 2025

llyw.cymru

OGL © Hawlfraint y Goron 2025, Llywodraeth Cymru, WG51407, ISBN digidol 978-1-83715-204-9
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg

## Rhagair Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a’r Gymraeg

Am y tro cyntaf ers nifer o flynyddoedd, mae'r Gyllideb Derfynol hon yn ein rhoi'n ôl ar ben ffordd at dwf yng Nghymru drwy ddarparu cyllid pellach ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus, trafnidiaeth, yr amgylchedd a materion gwledig a'r celfyddydau a diwylliant, gan ychwanegu at y buddsoddiad sylweddol a gyhoeddwyd gennym yn y Gyllideb Ddrafft ym mis Rhagfyr.

Wrth gyhoeddi'r Gyllideb Derfynol hon, mae Llywodraeth Cymru wedi gweithio'n agos gyda Jane Dodds AS, arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, i gytuno ar dros £100m o fuddsoddiad ychwanegol, mewn meysydd lle'r ydym yn rhannu blaenoriaethau. Rydym wedi gweithio'n adeiladol gyda'n gilydd i sicrhau bod awdurdodau lleol a'r gwasanaethau cyhoeddus yr ydym i gyd yn dibynnu arnynt yn cael cyllid ychwanegol.

Mae cydweithio ar sail consensws rhwng Llywodraeth Cymru a phleidiau eraill yn y Senedd mewn meysydd lle'r ydym yn rhannu diddordeb a blaenoriaethau wedi bod yn un o nodweddion datganoli ers ffurfio'r Cynulliad cyntaf. Mae'n un o nodweddion democratiaeth yng Nghymru, ac yn un o'i chryfderau mawr.

Rwyf wedi ymrwymo i weithio gyda phob plaid yn y Senedd i basio Cyllideb Derfynol 2025-26 fel y gall pawb yng Nghymru elwa ar y Gyllideb uchelgeisiol hon.

Mae'r cyllid ychwanegol sy'n cael ei gadarnhau ynddi yn cynnwys £30m yn ychwanegol ar gyfer gofal cymdeithasol i dargedu oedi wrth ryddhau cleifion o ysbytai a £30m a fydd yn sicrhau cyllid i’r rhaglen Dechrau’n Deg i ddarparu gofal plant i blant dwy flwydd oed ar draws Cymru ac i ddarparu cynnydd pellach yn y gyfradd gofal plant i gefnogi darparwyr.

Darperir £8.24m o gyllid ychwanegol i warantu cyllid gwaelodol yn y setliad llywodraeth leol, a fydd yn cefnogi naw awdurdod lleol; £5m i awdurdodau lleol i wella meysydd chwarae a mannau chwarae a £5m arall i gefnogi awdurdodau lleol i ddatgarboneiddio eu canolfannau hamdden.

Mae'r cytundeb hefyd yn darparu £15m dros ddwy flynedd ariannol i ariannu cynllun peilot tocynnau bws i bobl ifanc a chyllid i adfer y pumed trên ar wasanaeth Calon Cymru o fis Rhagfyr 2025 ymlaen. Mae £10m ychwanegol yn cael ei fuddsoddi yn y Cynllun Buddsoddi Gwledig a £5m i wella gorfodaeth ansawdd dŵr. Rwy'n ddiolchgar i Jane Dodds am y ffordd adeiladol yr ydym wedi gallu cytuno ar y buddsoddiadau pwysig iawn hyn.

Ers i'r Gyllideb Ddrafft gael ei chyhoeddi, mae Aelodau o'r Senedd, partneriaid a rhanddeiliaid wedi craffu'n ystyriol ac yn gadarn arni.

Mae'r Gyllideb Derfynol hefyd yn darparu cyllid ychwanegol i'r celfyddydau, diwylliant, a chwaraeon, a hynny ar ben y cyllid a gyhoeddwyd yn y Gyllideb Ddrafft. Mae hyn yn cydnabod yr heriau penodol yn y sector pwysig hwn, sy'n rhan annatod o'n treftadaeth a'n hunaniaeth, ac yn ailddatgan ein hymrwymiad i ddyfodol mwy diogel a chynaliadwy i'r celfyddydau a diwylliant.

Gyda'i gilydd, mae'r cyllid ychwanegol a gyhoeddir heddiw, ynghyd â'r £1.5bn a ymrwymwyd yn y Gyllideb Ddrafft, yn argoeli dyfodol mwy disglair i Gymru.

# Cyflwyniad

1. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno Cyllideb Derfynol 2025-26 yn unol â Rheol Sefydlog 20. Mae'r Gyllideb Derfynol yn nodi cynlluniau gwario adnoddau a chyfalaf Llywodraeth Cymru ar gyfer 2025-26.

2. Mae Cyllideb Ddrafft 2025-26, a gyhoeddwyd ar 10 Rhagfyr 2024, yn nodi cynlluniau gwario arfaethedig Llywodraeth Cymru a'i chynigion trethu a benthyca. Mae pob un o Ysgrifenyddion y Cabinet hefyd wedi cyhoeddi papurau tystiolaeth manwl ar gyfer pwyllgorau craffu'r Senedd mewn perthynas â'r cynlluniau gwario ym mhob portffolio unigol.

3. Mae'r Gyllideb Derfynol yn cyflwyno newidiadau cyfyngedig na chafodd eu cyhoeddi yn y Gyllideb Ddrafft. Mae'r Nodyn Esboniadol hwn yn amlinellu'r newidiadau hynny.

4. Cafodd amseriad digwyddiad cyllidol yr Hydref Llywodraeth y DU ar 30 Hydref 2024, pan gafodd Llywodraeth Cymru wybod ei setliad ar gyfer 2025-26, effaith sylweddol unwaith eto ar gyhoeddi'r Gyllideb. Gyda chytundeb Pwyllgor Busnes a Phwyllgor Cyllid y Senedd, rhoddodd Llywodraeth Cymru drefniadau eithriadol ar waith mewn perthynas â phroses y Gyllideb ar gyfer eleni.

5. Craffodd y Senedd a'i phwyllgorau ar Gyllideb Ddrafft 2025-26 rhwng 10 Rhagfyr 2024 a 4 Chwefror 2025. Cyhoeddodd pwyllgorau'r Senedd eu hadroddiadau craffu ar y Gyllideb Ddrafft ar 3 Chwefror 2025, cyn y ddadl ar y Gyllideb Ddrafft yn y Senedd ar 4 Chwefror.

6. Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu'r gwaith craffu ar ein cynigion ar gyfer y Gyllideb a ddarperir gan y Pwyllgor Cyllid a phwyllgorau eraill y Senedd. Rydym wedi cnoi cil ar yr argymhellion a wnaed gan yr holl bwyllgorau a byddwn yn ymateb yn ffurfiol i'r rhain cyn y ddadl ar y Gyllideb Derfynol ar 4 Mawrth.

7. Gan fod y newidiadau rhwng y Gyllideb Ddrafft a'r Gyllideb Derfynol yn gyfyngedig ac yn adeiladu ar gynlluniau gwario sydd eisoes wedi'u cyhoeddi, mae asesiad o'r effeithiau hyn eisoes wedi'i ddarparu drwy'r Asesiad Effaith Integredig Strategol a gyhoeddwyd ochr yn ochr â Chyllideb Ddrafft 2025-26.

## Diweddariad ar y Cyd-destun Economaidd 2025-26

8. Mae amodau economaidd a rhagolygon tymor agos wedi dirywio ers cyhoeddi Adroddiad Economaidd a Chyllidol Cymru ym mis Rhagfyr 2024.

9. Bu diffyg twf o ran allbwn neu gynnyrch domestig gros (GDP) ar draws y DU yn ail hanner 2024, ac ar gyfer y flwyddyn gyfan mae'n debygol iddo gynyddu lai nag 1%. Roedd twf mewn GDP y pen, sy'n fwy perthnasol i safonau byw na GDP cyfanredol, yn wannach na GDP cyfanredol oherwydd twf cryf yn y boblogaeth.

10. Mae rhagolwg economaidd diweddaraf Banc Lloegr yn awgrymu na fydd perfformiad yn gwella'n sylweddol yn fuan. Mae disgwyl i GDP y DU gynyddu fymryn yn y chwarter presennol a chynyddu'n gymedrol yn unig yn ystod gweddill y flwyddyn. Mae disgwyl i chwyddiant a diweithdra gynyddu.

11. Mae'n debygol y byddai'r canlyniadau hyn i'w gweld yng Nghymru hefyd. Mae diffyg data cynhwysfawr cadarn am y farchnad lafur ac allbwn yn parhau i lesteirio ymdrechion i fesur perfformiad economi Cymru'n fanylach.

12. Mae rhagolwg Banc Lloegr yn awgrymu diffyg twf yn y tymor byr, gan barhau â phatrwm y blynyddoedd diwethaf. Rhwng chwarter cyntaf 2022 a phedwerydd chwarter 2024, cynyddodd GDP cyfanredol y DU oddeutu 1.5%. Mae hyn yn llawer iawn is na'r gyfradd twf gyfartalog ar gyfer un flwyddyn yn unig cyn yr argyfwng ariannol.

13. Mae risg fawr i'r rhagolwg economaidd byd-eang wedi dod i'r amlwg o dan Lywodraeth newydd yr Unol Daleithiau. Mae'r weinyddiaeth wedi gosod tariffau ychwanegol ar fewnforion o Tsieina ac mae cynigion i gynyddu tariffau'n sylweddol ar fewnforion o Fecsico a Chanada wedi'u hatal am y tro. Mae bygythiad gwirioneddol o aflonyddwch sylweddol i fasnach fyd-eang. Byddai hynny'n niweidio economi'r byd ac yn effeithio ar yr economi yng Nghymru. Mae dadansoddiad y Sefydliad Cenedlaethol dros Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol yn awgrymu y gallai rhyfel masnach haneru twf economaidd yn y DU eleni.

14. Mae ail risg wedi dod i'r amlwg wrth i fuddsoddwyr yn y farchnad bondiau bryderu am oblygiadau negyddol polisi cyllideb Llywodraeth yr Unol Daleithiau ar gyfer ei chyllid cyhoeddus. Mae'r pryderon hyn wedi effeithio ar y DU wrth i adenillion giltiau gynyddu'n sydyn ym mis Ionawr cyn gostwng yn ystod yr wythnosau diwethaf. Mae anwadalrwydd pellach yn bosibl yn yr wythnosau a'r misoedd i ddod. Gallai hynny gynyddu costau cyfalaf i fusnesau, cynyddu costau morgeisi aelwydydd a'i gwneud yn ddrytach i'r llywodraeth fenthyca.

15. Mae effeithiau cyfunol twf is a chostau benthyca uwch i Lywodraeth y DU yn debygol o olygu risgiau negyddol sylweddol i ragolwg cyllidol y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol a gyhoeddwyd fis Hydref diwethaf. Gallai hyn ei gwneud yn anos i Lywodraeth y DU gadw at ei rheolau cyllidol. Nid oedd llawer o hyblygrwydd o fewn y rheolau hyn yn y rhagolygon ym mis Hydref. Gallai hyn yn ei dro effeithio ar yr amlen wariant gyffredinol y tu hwnt i 2025-26 i adrannau'r DU a'r gwledydd datganoledig yn yr adolygiad gwariant sydd ar ddod. Bydd y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol yn cyhoeddi rhagolwg economaidd a chyllidol wedi'i ddiweddaru ar 26 Mawrth.

## Newidiadau rhwng y Gyllideb Ddrafft a'r Gyllideb Derfynol

16. Mae'r newidiadau a wnaed rhwng cyhoeddi'r Gyllideb Ddrafft a'r Gyllideb Derfynol wedi'u hamlinellu isod ac yn cael eu hadlewyrchu yn y Tablau sy'n Ategu'r Cynlluniau Gwario (llyfr gwaith .ods).

17. Mae'r newidiadau manwl i gynlluniau gwariant pob adran wedi'u nodi yn nhablau Llinellau Gwariant Cyllideb Derfynol 2025-26 a gyhoeddir ynghyd â'r Nodyn Esboniadol hwn.

18. Mae Gweinidogion Cymru wedi cytuno ar y newidiadau a ddangosir yng Nghyllideb Derfynol 2025-26 yn unol â'r nodau a nodir yn y Gyllideb Ddrafft: sef diogelu gwasanaethau cyhoeddus, tyfu'r economi a thargedu buddsoddiad tuag at gyflawni blaenoriaethau Llywodraeth Cymru:

    **'Iechyd da'** – lleihau amseroedd aros yn y GIG, gan gynnwys ar gyfer iechyd meddwl; gwella mynediad at ofal cymdeithasol a gwasanaethau iechyd menywod;

    **Swyddi a thwf gwyrdd** – creu swyddi gwyrdd sy'n mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd ac yn adfer natur, gan sicrhau bod teuluoedd ar eu hennill; a chyflymu penderfyniadau cynllunio i dyfu economi Cymru;

    **Cyfle i bob teulu** – hybu safonau mewn ysgolion a cholegau a darparu rhagor o gartrefi ar gyfer y sector rhent cymdeithasol, gan sicrhau bod pob teulu yn cael cyfle i lwyddo;

    **Cysylltu cymunedau** – trawsnewid ein rheilffyrdd a darparu gwell rhwydwaith bysiau; trwsio ein ffyrdd a grymuso cymunedau lleol i wneud dewisiadau ar y terfyn cyflymder 20mya.

### Ffynonellau Cyllid Llywodraeth Cymru

19. Mae'r Gyllideb Derfynol hon yn cynnwys newid bach yn y rhagolygon refeniw diweddaraf ar gyfer y Dreth Trafodiadau Tir a'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi. Cyhoeddir manylion y rhagolygon treth yn niweddariad y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol i'r Rhagolwg Trethi Cymreig a gyhoeddir ochr yn ochr â'r Gyllideb Derfynol.

### Dyraniadau ychwanegol adeg y Gyllideb Derfynol - Adnoddau

20. Rydym yn dyrannu cyllid adnoddau pellach o £30m ar gyfer gofal cymdeithasol drwy'r Prif Grŵp Gwariant (MEG) Iechyd a Gofal Cymdeithasol i dargedu oedi wrth ryddhau cleifion o'r ysbyty a darparu mwy o ofal a chymorth mewn cymunedau lleol. Yn 2025-26, caiff ei ddarparu drwy Grant Trawsnewid Llwybrau Gofal i'r awdurdodau lleol i hybu buddsoddiad mewn gofal cymdeithasol yn y gymuned. Bydd yn cefnogi asesiadau ac yn darparu pecynnau gofal i sicrhau y gall pobl adael yr ysbyty pan fyddant yn ffit yn feddygol i wneud hynny, gan helpu i leihau lefel yr oedi wrth ryddhau cleifion o'r ysbyty. Bydd hefyd yn cryfhau gwasanaethau gofal yn y gymuned.

21. Mae cyllid adnoddau pellach o £30m yn cael ei ddarparu ar gyfer gofal plant. Mae hyn yn ychwanegol at y £20m sydd wedi'i gynnwys yn y Gyllideb Ddrafft. Bydd y £30m yn ariannu'r gost o ymestyn gofal plant Dechrau'n Deg yn ardal pob awdurdod lleol. Mae'r awdurdodau lleol wedi nodi cynlluniau ynghylch sut y byddant yn ehangu gofal plant Dechrau'n Deg yn eu hardaloedd. Bydd y cyllid hwn yn sicrhau bod gofal plant ar gael i'r mwyafrif o blant dwy flwydd oed a nodwyd yn y cynlluniau hynny yn 2025-26. Bydd y cyllid hefyd yn helpu i godi’r gyfradd fesul awr am ofal plant i £6.40 i helpu darparwyr i ymdopi â phwysau o ran cost. Mae hyn yn ychwanegol at ein cyhoeddiad diweddar ynghylch symud at adolygiadau blynyddol o’r gyfradd o 2025-26 a'n penderfyniad i ddarparu rhyddhad ardrethi o 100% yn barhaol ar gyfer pob safle gofal plant.

22. Rydym yn darparu £10m yn ychwanegol i'r Cynllun Buddsoddi Gwledig i'w fuddsoddi yn ein heconomi wledig fel rhan o Gam Paratoadol y Cynllun Ffermio Cynaliadwy, cyn i'r cynllun gael ei gyflwyno yn 2026. Bydd hyn yn helpu ein ffermwyr a'r gadwyn gyflenwi bwyd ehangach i gynhyrchu bwyd yn gynaliadwy, yn cyfrannu at ein hamcanion hinsawdd a natur ac yn cefnogi ein cymunedau gwledig. Bydd ystod eang o gyngor a chymorth ariannol ar gael yn ogystal â Chynllun y Taliad Sylfaenol, gan gynnwys Cynllun Cynefin Cymru, y Taliad Cymorth Organig, Creu ac Adfer Coetiroedd, ystod o grantiau bach i gefnogi ffermwyr sy'n dewis prynu offer newydd, creu a chynnal nodweddion amgylcheddol neu ddatblygu eu busnesau amaethyddol.

23. Yn y Gyllideb Derfynol hon, rydym yn dyrannu swm pellach o £8.24m drwy’r setliad llywodraeth leol i sicrhau bod pob awdurdod lleol yn gweld cynnydd yn ei gyllid o 3.8% o leiaf o'i gymharu â 2024-25 ar sail tebyg at ei debyg. Mae'r terfyn isaf hwn 1.5% yn uwch na'r flwyddyn flaenorol ac yn cefnogi naw awdurdod. Rydym yn cydnabod y pwysau sylweddol sy'n wynebu'r awdurdodau lleol a'r ystod eang o wasanaethau cyhoeddus y maent yn eu darparu, gan gynnwys gofal cymdeithasol, addysg, cymorth tai a gwasanaethau cymunedol hanfodol eraill. Darparodd y Gyllideb Ddrafft fwy na £6.1bn ar gyfer cyllid craidd yr awdurdodau lleol drwy'r setliad llywodraeth leol, cynnydd o dros £253m ar sail tebyg at ei debyg o'i gymharu â 2024-25. Bydd y codiad pellach hwn yn galluogi'r awdurdodau i ymateb i bwysau a blaenoriaethau lleol.

24. Gan gydnabod y gall trafnidiaeth gyhoeddus helpu i gefnogi pobl ifanc i gael mynediad at addysg, cyflogaeth, hyfforddiant a gwasanaethau, rydym yn darparu £8m drwy'r Gyllideb Derfynol hon i helpu i gyflwyno cynnig gwell ar gyfer tocynnau bws – £1 am docyn unffordd – i bobl ifanc 16 i 21 oed. Mae'r cyllid hwn i'r MEG Trafnidiaeth yn ategu ein hagenda ar gyfer diwygio bysiau a'n hymdrechion i wella cyfiawnder cymdeithasol a chyflawni blaenoriaeth y Prif Weinidog o ran Cysylltu Cymunedau.

25. Rydym yn buddsoddi £1m yn ychwanegol o gymorth adnoddau cylchol drwy Fenter Benthyca Llywodraeth Leol ar gyfer Rheoli Priffyrdd. Gyda'r £5m a gyhoeddwyd yn y Gyllideb Ddrafft, mae hyn yn ymrwymiad o £6m yn 2025-26 ynghyd â £4m pellach yn 2026-27. Bydd hyn yn galluogi'r awdurdodau lleol i hunangyllido cyllid cyfalaf o ryw £120m i'w wario ar reoli priffyrdd a thrwsio ffyrdd a phalmentydd lleol.

26. Rydym yn dyrannu £5m ar gyfer ansawdd dŵr mewn afonydd a moroedd, sy'n canolbwyntio ar orfodi – bydd £3.5m yn gyllid adnoddau a bydd £1.5m yn gyfalaf, a ddyrennir i'r MEG Newid Hinsawdd a Materion Gwledig. Bydd hyn yn hwyluso gweithgarwch cydymffurfio ychwanegol a arweinir gan wybodaeth a gweithgarwch dilynol ar ddosbarthu digwyddiadau. Bydd yn cefnogi buddsoddiad mewn systemau sylfaen, yn buddsoddi mewn staff gorfodi ac yn adeiladu ar y cyd-drefniadau presennol â'r heddlu. Bydd hefyd yn cefnogi partneriaeth amlasiantaethol a ffocws strategol ar wella ansawdd dŵr.

27. Mae £4.381m ychwanegol yn cael ei ddarparu drwy MEG yr Economi, Ynni a Chynllunio ar gyfer y sectorau celfyddydau, diwylliant, treftadaeth, cyhoeddi, creadigol a chwaraeon i adlewyrchu'r sefyllfa heriol y mae'r sector wedi'i hwynebu yn ddiweddar. Mae hyn yn ychwanegol at y dyraniadau cyllid a wnaed yn y Gyllideb Ddrafft ac mae'n helpu i adfer cyllid ar gyfer y sectorau hyn i lefelau 2023-24.

28. Rydym yn darparu £1.25m yn 2025-26 i roi gwelliannau ar waith i reilffordd Calon Cymru rhwng Abertawe ac Amwythig. Drwy hyn, bydd modd cyflwyno gwasanaeth ychwanegol yn yr amserlen o fis Rhagfyr 2025 a fydd yn seiliedig ar ddefnydd gan deithwyr, gyda chysylltiadau â darpariaeth bysiau fel rhan o wasanaethau gwell ar gyfer y Canolbarth. Mae'r cyllid hwn, drwy'r MEG Trafnidiaeth, yn rhan o'n rhaglen i wella gwasanaethau rheilffyrdd i gwsmeriaid a chyflawni ein blaenoriaeth Cysylltu Cymunedau.

29. Mae cyllid o £0.2m yn cael ei ddarparu i fwrw ymlaen ymhellach ag ailddatblygu Canolfan Gelfyddydau Glannau Gwy yn Llanfair-ym-Muallt. Cafodd y theatr gyllid o'r Gronfa Ffyniant Gyffredin yn ddiweddar i ddiweddaru astudiaeth ddichonoldeb a gwblhawyd yn 2018. Bydd y cyllid hwn, drwy MEG yr Economi, Ynni a Chynllunio, yn symud y prosiect ymlaen i gam 'dyluniad datblygedig' terfynol.

30. Mae £0.05m yn ychwanegol yn cael ei ddyrannu i gynllun grantiau bach Cymru ac Affrica, drwy'r MEG Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu. Mae'r cynllun yn cefnogi ac yn annog cymdeithas sifil, busnesau a chyrff cyhoeddus Cymru i gymryd camau buddiol i'r ddwy ochr ar ddinasyddiaeth fyd-eang, cyfnewid sgiliau a chyd-ddysgu, gweithio mewn partneriaeth a chamau gweithredu ym maes newid hinsawdd i helpu i gyflawni Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig.

### Dyraniadau ychwanegol adeg y Gyllideb Derfynol - Cyfalaf

31. Mae dyraniad cyfalaf gwerth £5m, drwy'r MEG Iechyd a Gofal Cymdeithasol, yn cael ei wneud i wella mannau chwarae a chyfleoedd chwarae i blant. Bydd y cyllid i'r awdurdodau lleol yn rhoi'r hyblygrwydd iddynt brynu eitemau graddfa fawr i wella ansawdd mannau chwarae ac ailwampio meysydd chwarae a bydd yn cefnogi'r gwaith o greu mannau a chyfleoedd chwarae hygyrch i blant.

32. Mae £5m yn ychwanegol yn cael ei ddarparu drwy'r MEG Tai a Llywodraeth Leol i gynyddu'r cymorth sydd ar gael i'r awdurdodau lleol i osod systemau gwresogi carbon isel yn eu canolfannau hamdden gan eu gwneud yn wyrddach, yn

gynhesach ac yn fwy cynaliadwy. Darperir hyn drwy'r grant gwres carbon isel sy'n rhoi cymorth i'r awdurdodau lleol i ddatgarboneiddio eu hadeiladau, boed yn swyddfeydd, ysgolion neu gartrefi gofal.

33. Mae cyllid cyfalaf o £1.5m yn cael ei ddarparu ar gyfer ansawdd dŵr mewn afonydd a moroedd, gan ganolbwyntio ar orfodi fel yr amlinellir ym mharagraff 25.

34. Mae £0.45m ar gael i Fwrdd Iechyd Addysgu Powys, drwy'r MEG Iechyd a Gofal Cymdeithasol, i fwrw ymlaen ymhellach â datblygu'r achos busnes amlinellol ar gyfer Canolfan Iechyd a Gofal Cymdeithasol Integredig Gogledd Powys yn y Drenewydd, ar ôl cwblhau'r broses graffu a llywodraethiant arferol. Mae'r cynllun yn cynnig darparu canolfan un stop sy'n canolbwyntio ar wasanaethau atal a gofal sylfaenol i wella canlyniadau iechyd a lleihau anghydraddoldebau.

35. Mae £0.5m yn cael ei ddyrannu drwy MEG yr Economi, Ynni a Chynllunio i helpu i gefnogi gwelliannau ac ailwampio toiledau ar ochr y ffordd ar y rhwydwaith ffyrdd strategol. Bydd y gwaith yn cynnwys gwaith ailwampio ac adnewyddu asedau'n llawn i helpu i gysylltu cymunedau â'i gilydd yn well, gan gynnwys cyfleusterau teithio mwy cynhwysol. Bydd hyn yn darparu gwell cyfleusterau ar ochr y ffordd i ddefnyddwyr y rhwydwaith ffyrdd.

36. Bydd dyraniad o £0.4m, drwy gyllidebau Trafnidiaeth, yn galluogi Llywodraeth Cymru i fwrw ymlaen â dylunio a gweithredu mesurau diogelwch cychwynnol sy'n gysylltiedig â chyffordd ffordd Pont-y-bat ar yr A470. Bydd atebion tymor hwy yn cael eu datblygu yn ystod cyfnod monitro pan gaiff y data a gesglir ei ddefnyddio i lywio'r atebion hynny.

## Cywiriad i dablau BEL y Gyllideb Ddrafft

37. Roedd gwall trawsosod yn nhablau BEL y Gyllideb Ddrafft a gyhoeddwyd, a hynny yn y MEG Newid Hinsawdd a Materion Gwledig rhwng y BEL Sicrhau Diogelwch Tomenni Glo a Chronfeydd Dŵr a'r BEL Parciau Cenedlaethol. Dyrannwyd £0.4m yn ychwanegol i Sicrhau Diogelwch Tomenni Glo a Chronfeydd Dŵr a dyrannwyd £2m yn ychwanegol i Barciau Cenedlaethol pan ddylai £2m fod wedi'i ddyrannu i Sicrhau Diogelwch Tomenni Glo a Chronfeydd Dŵr a £0.4m i Barciau Cenedlaethol. Mae hyn yn cael ei gywiro yn y Gyllideb Derfynol.

## Newidiadau Gweinyddol

38. Rydym yn gwneud nifer o newidiadau gweinyddol rhwng Prif Grwpiau Gwariant (MEG) gan ymateb i ystod o faterion sydd wedi codi ers i'r Gyllideb Ddrafft gael ei chyhoeddi.

39. Mae sawl newid technegol i adnoddau cyllidol rhwng portffolios Gweinidogol yn y Gyllideb Derfynol hon. Fe'u rhestrir yma gyda manylion llawn yn y tablau BEL sy'n cyd-fynd â hwy:

- Trosglwyddo £1.1m o'r MEG Iechyd a Gofal Cymdeithasol i'r MEG Addysg i gefnogi darpariaeth feithrin cynnig gofal plant Cymru;
- Trosglwyddo £0.443m o'r MEG Llywodraeth Leol a Thai i'r MEG Cyfiawnder Cymdeithasol ar gyfer y Prosiect Tai i Ffoaduriaid; prosiect y cynllun Lletya; a'r prosiect StreetLife;
- Trosglwyddo £0.073m o'r MEG Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu i'r MEG Addysg ar gyfer gweithgareddau sy'n ymwneud â'r Siarter Iaith;
- Trosglwyddo £0.05m o'r BEL Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn y MEG Cyfiawnder Cymdeithasol i'r MEG Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu ar gyfer ffrwd waith gwasanaethau cyhoeddus Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru;
- Trosglwyddo £0.134m o'r MEG Cyfiawnder Cymdeithasol i'r MEG Iechyd a Gofal Cymdeithasol oherwydd newid yng nghyfradd pensiwn Llais, Corff Llais y Dinesydd.

40. Mae tri newid yn ymwneud â rhaglenni Buddsoddi i Arbed i ddychwelyd cyfrifoldeb cyllidebol, ariannu a rheoli'r cynlluniau yn y dyfodol i'r adrannau perthnasol:
    - Trosglwyddo cyllid adnoddau o £1.607m o'r MEG Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu i'r MEG Iechyd a Gofal Cymdeithasol;
    - Trosglwyddo cyllid adnoddau o £0.2m o'r MEG Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu i'r MEG Newid Hinsawdd a Materion Gwledig ar gyfer Twf Gwyrdd Buddsoddi i Arbed;
    - Trosglwyddo cyllid cyfalaf o £1.052m o'r MEG Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu i'r MEG Newid Hinsawdd a Materion Gwledig ar gyfer Buddsoddi i Arbed – Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru a Byw'n Glyfar.

41. Yn ogystal â'r trosglwyddiadau rhwng portffolios y Gweinidogion, mae nifer o drosglwyddiadau adnoddau cyllidol rhwng BELs o fewn yr un portffolios. Trosglwyddiadau gweinyddol yw'r rhain at ei gilydd, ac nid oes ganddynt unrhyw effaith net ar gyfansymiau'r MEGs unigol. Mae’r rhain yn cynnwys:
    - Trosglwyddo £1.611m o Ddyraniadau Craidd y GIG yn y MEG Iechyd a Gofal Cymdeithasol i helpu byrddau iechyd i reoli costau chwyddiant na ellir eu hosgoi a phwysau'r galw ar gyfer 2025-26.
    - Trosglwyddo £0.343m o Ddyraniadau Craidd y GIG yn y MEG Iechyd a Gofal Cymdeithasol i Reoli Gwybodaeth a Thechnoleg mewn Gofal Sylfaenol a £1.148m i Iechyd a Gofal Digidol Cymru i helpu yn sgil pwysau sy'n gysylltiedig â chwyddiant digidol ac i adlewyrchu'r flaenoriaeth sy'n cael ei rhoi i faterion digidol fel hwylusydd allweddol o ran datblygu cynlluniau ariannol cynaliadwy.
    - Trosglwyddo £0.125m o Ddyraniadau Craidd y GIG yn y MEG Iechyd a Gofal Cymdeithasol i Ddyraniadau Uniongyrchol eraill y GIG sef costau cylchol yr economi sylfaen i linell sylfaen Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru.
    - Trosglwyddo £12.5m o Gymorth Gofal Plant a Chwarae i Blant a Chymunedau o fewn y MEG Iechyd a Gofal Cymdeithasol, sy'n ofynnol ar gyfer cysoni gofal plant Dechrau'n Deg yn barhaus;

- Trosglwyddo £0.1m o'r Gymraeg mewn Addysg i Cymraeg 2050 (Grant Addysg Awdurdodau Lleol) yn y MEG Addysg i gefnogi darpariaeth trochi hwyr yr awdurdodau lleol ymhellach.
- Trosglwyddo £0.02m o'r Gymraeg mewn Addysg i Wariant ar Raglenni Estyn yn y MEG Addysg er mwyn i arolygiad Estyn o ganolfannau trochi ieithyddol yr awdurdodau lleol gael ei roi ar waith.